

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>8fed o Orffennaf 2021</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)</b>

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn Atodiad A.
- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd wneud penodiadau i'r pyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

#### 2.1. CYFLWYNIAD

2.1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ar **y 13eg o Fai, 2021** fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	39
Annibynnol	21
Llais Gwynedd	6
Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd	3
Grŵp Propel	2
Aelod Unigol	4

**Cyfanswm** **75**

2.1.2 Ers hynny, mae newidiadau wedi bod fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd is-etholiad yn ward Harlech yn sgil ymddiswyddiad Freya Bentham, grŵp Annibynnol.
- Etholwyd y Cynghorydd Gwynfor Owen yn ward Harlech, grŵp Plaid Cymru.

### 2.1.3 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	40
Annibynnol	20
Llais Gwynedd	6
Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd	3
Grŵp Propel	2
Aelod Unigol	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>75</b>

## 2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

- (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;
- (b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;
- (c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;
- (ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.2 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2.1 uchod hefyd.

## 2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.3.1 Mae'r rheol a nodir yn 2.2.1 (b) yn golygu nad oes newid i'r cydbwysedd gwleidyddol o safbwynt Grŵp Plaid Cymru. Fodd bynnag, mae'r newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol yn sgil yr adolygiad fel a ganlyn:

- Mae Grŵp Llais Gwynedd yn ennill un sedd ar y Pwyllgor Iaith ar draul y Grŵp Annibynnol.

2.3.3 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Yn unol â'r arfer ymgynghorwyd â Grŵp Busnes y Cyngor, fodd bynnag bu'n rhaid gwneud hyn ar ffurf electroneg y tro hwn yn sgil yr amserlen hynod dynn.

### 3.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

## ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Y Blaid Genedlaethol	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	10	5	1	1	1	0	18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	10	5	2		0	1	18
Pwyllgor Craffu Gofal	10	5	1	1	0	1	18
Archwilio a Llywodraethu	10	5	1		1	1	18

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Y Blaid Genedlaethol	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democrataidd	8	4	1	1	1		15
Cynllunio	8	4	1		1	1	15
Trwyddedu Canolog	8	4	1		0	2	15
Iaith	8	4 (i lawr o 5)	2 (i fyny o 1)		1		15
Penodi Prif Swyddogion	8	4	1	1	0	1	15
Apelau Cyflogaeth	4	2	1		0		7
<b>Nifer y seddau</b>	<b>84</b>	<b>43</b>	<b>11</b>	<b>4</b>	<b>5</b>	<b>7</b>	<b>154</b>

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Y Blaid Genedlaethol	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau	4	2	0		0	1	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	3	1		1		11
CYSAG	4	1	0	1	0	1	7
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	4	2	1		0		7

<b>Cyfanswm y seddau</b>	<b>102</b>	<b>50</b>	<b>14</b>	<b>5</b>	<b>6</b>	<b>9</b>	<b>186</b>
--------------------------	------------	-----------	-----------	----------	----------	----------	------------